

Opsiynau cyflenwi TEG

	Safonol	Opsiynol
Astudiaeth safle		✓
Cymorth gyda chydlynu gyda rhanddeiliaid lleol/rheoleiddiwr		✓
Datblygu manyleb addas ar gyfer materion sifil a rheoli arogleuon		✓
Cefnogaeth dechnegol ar gyfer ceisiadau cynllunio, caniatâd amgylcheddol a chymeradwyaeth ABP	✓	
Rheolaeth dros dro gwastraff mewn safleoedd compostio TEG yng nghyfnod adeiladu'r safle		✓
Adeiladu cyfleusterau sifil, adeiladau a seilwaith safle		✓
Cyflenwi, gosod, comisiynu, profi a gweithrediad cynnar: Offer paratoi porthiant System bwydo gwastraff Triniaethau biolegol IVC TEG neu AD UTS Dadlwytho cynnyrch, ôl-driniaeth a storio System rheoli arogleuon System adennill ynni	✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓
Hyfforddiant gweithredydd	✓	
Cefnogaeth dechnegol ar gyfer gweithredu parhaus		✓
Contract cynnal a chadw ar safle ac offer		✓
Contract gweithredu		✓
Marchnata compost ynni a chynnyrch treuliant		✓
Gwarantau safle a phroses	✓	
Gwarantau estynedig		✓
Gwarant trwybwn gydol oes		✓

Datrysiadau pwrpasol ar gyfer amgylcheddau trefol, gwledig a thir llwyd.

Mae TEG yn gweithredu safleoedd ledled y Deyrnas Unedig a chroesewir ymwelwyr.

Os hoffech ymweld ag un o'n safleoedd neu gael gwybodaeth bellach ffoniwch ni ar

01772 644980 i drefnu apwyntiad neu anfon neges e-bost at enquiries@theteggroup.plc.uk



Y ffordd ymlaen gyda gwastraff organig



Ymagwedd gydweithiol i ateb gofynion y farchnad



NOFCO
NATURAL ORGANIC FERTILISER CO.



Alkane

Opsiynau Triniaeth Gwastraff Organig

Mae compostio a threulio anerobig yn ddau ddull sefydledig ar gyfer ailgylchu deunydd organig a dychwelyd cynnyrch ansawdd da i'r tir i ailgylfenwi maethion y pridd. Mae cynnyrch compost hefyd yn gwella strwythur y pridd ac mae treulio anerobig yn adennill ynni o'r gwastraff ar wedd trydan, biomethan neu wres.

Mae TEG yn cynnig technolegau a brofwyd ar ystod eang o fathau gwastraff organig, yn cynnwys:

- Gwastraff cegin a gardd
- Gwastraff bwyd o gwmnïau arlwyyo neu weithgynhyrchu
- Gwastraff solid bwrdeisiol wedi'i wahanu yn ôl ffynhonnell
- Gwastraff gwyrdd
- Gwastraff Isgynnyrch Anifeiliaid Categori 3



Treulio Anerobig

Mae cyfarpar ac offer treulio anerobig (AD) a gynlluniwyd ac a wnaethpwyd gan UTS Biogas ar waith mewn mwy na 1,500 safle yn Ewrop. Defnyddiodd UTS 17 mlynedd o brofiad i greu datrysiadau parod sy'n cynnig:

- Cynnyrch bio-nwy uchel
- Gweithrediad cyfarpar sefydlog
- Goddefiant amrywiadau mewn porthiant
- Dyluniad llif cymysg ar gyfer optimeiddio proses effeithiol
- Di-sylffyr biolegol effeithiol
- Ychydig iawn o allyriadau arogleuon
- Gwasanaethu rhwydd heb effeithio ar allbwn
- Nodweddion diogelwch gyda phatent
- Dyluniad modwlar, hyblyg gyda phosibiliadau uwchraddio
- Yr amser segur lleiaf posibl, yr allbwn mwyaf posibl
- Gwasanaethau cefnogaeth fiolegol
- Safleoedd PLC wedi'u rheoli a monitro gyda chyfleusterau monitro o bell
- Dyluniadau esthetig ddymunol
- Rheoli porthiant ar gyfer gweithredu'r broses yn y modd gorau oll

Mae dyluniad modwlar technoleg compostio caeedig a threulio anerobig TEG yn golygu y medrir addasu ein systemau yn llawn i gynyddu capasiti ar gam diweddarach, os bydd angen yn codi yn y dyfodol.

Compostio Caeedig

- Mae proses compostio caeedig (IVC) TEG yn gweithredu mewn rhwydwaith o safleoedd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u dilysu dan Reoliadau Isgynnyrch Anifeiliaid a chyda ardystiad Safon BSI PAS 100 QP.
- Ychydig iawn o drwytholch a gynhyrchir drwy weithrediad parhaus y broses compostio a nemor ddim allyriadau.
- Nid oes unrhyw awyriad, troi neu gorddi yn cael ei orfodi yn ystod y broses compostio un pas, gan arwain at alw isel ar ynni.
- Mae awtomeiddio yn golygu angen isel am lafur.
- Mae systemau monitro tymheredd parhaus a systemau rhybuddio soffistigedig yn sicrhau y cedwir yr amgylchedd gwaith orau bosibl ar bob amser, gan warantu cynnyrch rhydd o bathogenau sy'n sefydlog ac yn rhwydd ei storio a'i thrin
- Mae dyluniad modwlar y system yn galluogi TEG i ddarparu datrysiad hyblyg ac effeithiol o ran cost mewn ystod eang o gapasiti proses o lai na 5 i fwy na 50ktpa.


Dangosodd astudiaeth ddiweddar fod gan weithrediad compostio TEG ôl-troed carbon o lai na 1/10fed ôl-troed carbon tomen lanw.

Pam TEG?

Mae TEG yn cynnig gwasanaeth hyblyg sy'n galluogi ein cwsmeriaid i ddewis yr ymagwedd sy'n cyd-fynd orau gyda'u gofynion unigol. Medrwn gynnig unrhyw un neu'r cyfan o'r dilynol:

- Astudiaethau dichonolrwydd safle
- Dylunio
- Cynllunio
- Trwyddedu
- Caniatâd
- Ariannu
- Rheolaeth interim ffrydiau gwastraff mewn cyfleusterau a weithredir gan TEG
- Peirianeg sifil
- Gosod cyfarpar
- Comisiynu
- Cefnogaeth weithredol barhaus
- Cynnal a chadw
- Marchnata - compost
- cynnyrch treuliant
- gwres
- trydan

Rydym wedi gweithio gyda nifer fawr o awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff a'r diwydiant bwyd i ddatblygu'r cyfleusterau sy'n gweddu orau i'w safleoedd daearyddol, ystyriaethau amgylcheddol a gofynion ymarferol. Yr hyn sydd ganddynt i gyd yn gyffredin yw mynediad i safonau a thechnegau gwobrwyol TEG.



Ein Partneriaid Cydweithredol

Mae **UTS** yn arwain y farchnad mewn technoleg treulio anerobig gyda hanes sylweddol o gyfleusterau ledled Ewrop, ar ôl codi mwy na 90 o safleoedd treulio anerobig parod ac wedi cyflenwi offer i dros 1,500 o gyfleusterau treulio anerobig dros gyfnod o 17 mlynedd. Mae gan UTS record gref mewn datblygu cyfleusterau yn prosesu bwyd a gwastraff arlwyyo, porthiant a ddefnyddir mewn llawer o gyfleusterau datblygu anerobig newydd yn y Deyrnas Unedig.

Mae **Alkane** yn gwmni nwy-i-ynni profiadol sy'n cynllunio, gosod a gweithredu pibelli, systemau monitro, triniaeth nwy ac uwchraddio offer, systemau Gwres a Phŵer cyfun a chysylltiadau grid fel y medrir defnyddio nwy a gynhyrchir o dreulio anerobig yn gystadleuol a chynaliadwy. Mae gan Alkane hefyd lawer o arbenigedd mewn sicrhau contractau hirdymor a thymor byr yn y marchnadoedd ynni.

Mae **NOFCO** yn darparu ystod lawn o wasanaethau i farchnata'r compost a chynnyrch treuliant ansawdd uchel a gynhyrchir yn defnyddio technoleg TEC. Mae tîm NOFCO yn darparu gwybodaeth a chynghor arbenigol ar bob agwedd o ddefnyddio compost a chynnyrch treuliant mewn sectorau yn cynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth, adfer tir a thirlunio.



Mae hyblygrwydd a chryfder ein technolegau ynghyd â'n llwyddiant mewn darparu prosiectau ar amser ac i gyllideb wedi gwneud TEG yn bartner technoleg cadarn ar gyfer cleientiaid sector cyhoeddus a sector preifat fel ei gilydd.